# ARDAL GADWRAETH CEI CRESSWELL



**CYNLLLUN GWERTHUSO A RHEOLI**

# Canllawiau Cynllunio Atodol

**Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Dyddiad Cymeradwyo ar gyfer Ymgynghoriad: 26 Mawrth 2025**
**Dyddiad Mabwysiadu: 10 Medi 2025**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Cyd-destun Polisi Cynllunio | 5 |
| 3 | Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg | 6 |
| 4 | Dadansoddiad o Gymeriad | 9 |
| 5 | Yr Ardal Gadwraeth a'i Lleoliad | 12 |
| 6 | Deunyddiau Adeiladu | 17 |
| 7 | Tirwedd a Lleoliad Glan-yr-afon | 29 |
| 8 | Cynigion Canllawiau a Rheoli Lleol | 35 |
| 9 | Datblygiadau Newydd o fewn yr Ardal Gadwraeth | 41 |

**Atodiad A - Cyd-destun y Polisi** 45

**Cyfeiriadau:** 48

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd penodol sydd wedi'u dynodi gan awdurdodau cynllunio am fod o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig. Cyflwynwyd Ardaloedd Cadwraeth yn 1967 ac maent nawr yn dod o dan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'i deddfwriaeth atodol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu ar 'ardaloedd o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig' a'u dynodi, sydd â'u cymeriad neu ymddangosiad yn ddymunol er mwyn 'diogelu neu wella' fel Ardaloedd Cadwraeth.

1.2 Cafodd Ardal Gadwraeth Cei Cresswell ei dynodi yn 2024. Mae gwerthusiad ardal gadwraeth yn cynnig dealltwriaeth a rennir ynghylch cymeriad a phwysigrwydd ac mae'n argymell ardaloedd ar gyfer cadwraeth a gwelliant a gall adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau i'w gweithredu. Gall helpu defnyddwyr i werthfawrogi beth sy'n ychwanegu at gymeriad positif a beth sy'n tynnu oddi wrtho. Mae'n asesiad ac adnodd ar gyfer rheolaeth bositif. Mae'n adnabod yr hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio er mwyn adnabod cyfleoedd a'u blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu.

1.3 Gellir defnyddio'r gwerthusiad fel sail ar gyfer cynllun rheoli fwy manwl wedi'i gefnogi gan fframwaith polisi lleol cadarn. Gall hefyd fod o gymorth wrth wneud penderfyniadau a gall gefnogi ceisiadau ariannu ar gyfer gwelliannau.

## Pwrpas Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

1.4 Mae canllawiau gan Cadw, 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru' yn nodi mai pwrpas gwerthusiad yw darparu:

- *diffiniad clir o'r faint a ffiniau'r ardal gadwraeth a'i lleoliad*
- *diffiniad clir o ddiddordeb arbennig yr ardal drwy asesiad o'i chymeriad a'i hymddangosiad.*
- *asesiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, gan gymryd i ystyriaeth gyflwr, defnydd a ffwythiant, nodweddion positif a negyddol, er enghraifft*
- *dadansoddiad o anghenion polisi a rheolaeth o'r ardal gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd rheolaethau cynllunio cyfredol, yr angen am unrhyw amddiffyniad atodol ac adnabod ffyrdd y gall cymeriad arbennig gael ei ddiogelu a'i wella*
- *cyfrwng ar gyfer ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.*

1.5 Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel:-

- Gwerthusiad o'r amrywiol nodweddion sy'n rhoi diddordeb archeolegol a hanesyddol arbennig i Ardal Gadwraeth Cei Cresswell, gyda'r rhagdybiaeth y byddant yn cael eu cadw neu wella yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth

- Cynllun rheoli sy’n nodi cynigion sy’n gallu gwella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth

## Traweffaith statws ardal gadwraeth

1.6 Ni fwriedir i ddynodiad ardal gadwraeth rwystro newid, ond mae’n golygu bod pwysigrwydd y dynodiad yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch newid a datblygiad. Mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau cynllunio dalu sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardaloedd cadwraeth. Mae yna hefyd rai rheolaethau rheoliadol ychwanegol. Mae deddfwriaeth yn dod â dymchweliadau a hysbysiadau o dan reolaethau cynllunio ac mae’n gwneud darpariaeth ar gyfer gwarchod coed. Mae yna hefyd gyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer preswylfeydd.

## Dymchwel

1.7 Mae angen caniatâd ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth, ac eithrio adeiladau –sy’n llai na 115 metr cwibig ac nad ydynt wedi’u dynodi’n adeiladau a eithrir. Dylai awdurdodau cynllunio ffafrio gadw adeiladau sy’n gwneud cyfraniad positif tuag at gymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth. Fel arfer ni ddylid rhoi caniatâd dymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio’r safle, oni bai bod yw’r ailddatblygiad ei hun yn annymunol.

1.8 Bydd angen i geisiadau caniatâd ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel o fewn ardal gadwraeth angen datganiad traweffaith treftadaeth. Mae trafodaethau cyn-ymgeisio yn ofyniad statudol gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr. Caiff y rhain eu hannog ar gyfer pob math o ddatblygiad mewn ardaloedd cadwraeth.

## Hysbysebu

1.9 Gall Awdurdodau Cynllunio ddynodi ardal o reolaeth hysbysebu arbennig os oes problem gydag ardal.

## Coed

1.10 Mae gan awdurdodau cynllunio y grym i warchod coed a choedwigoedd drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed. Yn ogystal, mae yna ddarpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn ddibynnol ar Orchmynion Cadw Coed. Mae’n rhaid i unrhyw un sy’n bwriadu torri lawr, torri brig neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi rhybudd o chwe wythnos i’r awdurdod cynllunio, ac yn ystod yr amser hwn gall yr awdurdod benderfynu p’un ai i amddiffyn y goeden honno gyda Gorchymyn Cadw Coed. Nid yw’r gofyn hwn yn berthnasol i goed o dan faint penodol, neu rai y mae prawf eu bod wedi marw, yn marw neu’n beryglus.

# 2 Cyd-destun Polisi Cynllunio

2.1 Mae Atodiad A i'r Canllaw hwn yn nodi crynodeb o'r ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae Polisi 8 Nodweddion Arbennig Cynllun Datblygu Lleol 2 (LPD2) yn darparu ar gyfer gwarchod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae'r Rhinweddau Arbennig wedi'u diweddaru yng Nghynllun Partneriaeth 2025-29 y Parc Cenedlaethol. Darperir y canllaw hwn er mwyn cefnogi Polisi 8 yn arbennig maen prawf b) sy'n ceisio sicrhau nad yw hunaniaeth a chymeriad trefi yn cael ei golli. Mae Cynllun Datblygu Lleol 2, Polisi 14 'Cadwraeth a Gwelliant Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro' hefyd yn sicrhau bod priodweddau tirwedd y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod gyda gofyniad am roi ystyriaeth ofalus i Ardaloedd Cadwraeth a'r amgylchedd hanesyddol.

## Ffeithiau Cyflym

2.2 (Rheoli ffynonellau Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru)

- Mae cadwraeth yn ychwanegu gwerth at y llefydd lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy.
- Mae rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol yn galluogi newid heb eu niweidio.
- Nid yw statws ardal gadwraeth yn rhwystr i newid, a all fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod adeiladau yn gallu cael eu defnyddio ac mewn cyflwr da.
- Gall gwella ardaloedd cadwraeth ddod â buddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.
- Gall ardaloedd cadwraeth fod yn ffocws ar gyfer adfywiad a chyfranogiad cymunedol.
- Mae yna dros 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac mae lle i fwy gael eu dynodi.

## 3 Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg

3.1 Mae’r enw Cresswell naill ai’n deillio o ‘Carswelle’ neu Cres Well, ffynnon lle mae berw dŵr yn tyfu neu ‘Christ’s Well’ sy’n gysylltiedig gyda’r gapeliaeth ganoloesol yn New Briton’. Mae ‘Christwell’ yn cael ei grybwyll yn 1282 a ‘Carsswelle’ yn 1326. Mae’r cyfeiriad cynharach yn gysylltiedig gydag allforio glo i Aberystwyth, gan wneud Cresswell y cei glo cyntaf yng Nghymru i gael ei grybwyll. Mae’r ôl-ddodiad ‘Quay’ yn cael ei grybwyll gyntaf yn 1709 ac erbyn hynny roedd y lle yn ffynnu fel porthladd glo.

3.2 Roedd dwy ffynnon sanctaidd ganoloesol yn bodoli yng Nghei Cresswell, un yn New Briton, a’r llall yng Nghoedwig Pisgah (’Ffynnon y Merched’ neu ‘Ladies’ Well’) tra oedd cadarnle Priordy Hwlffordd wedi’i sefydlu yn New Briton erbyn 1282. Mae hyn i gyd yn awgrymu anheddiad pwysig a chynnar.

3.3 Adeg Diddymu’r Mynachlogydd, cafodd y gapeliaeth ei drosglwyddo i ddwylo Roger Barlow o Slebech a wnaeth ei gyfnewid am dŷ. Cafodd hyn ei ymestyn yn fawr gan ei ŵyr, William Barlow (Siryf y Sir yn 1612) cyn ei farwolaeth yn 1636 fel castell ‘ffug’ ffasiynol gyda thyredi cornel. Roedd tŷ newydd - sydd nawr yn adfeilion - yn amlwg wedi’i ddylanwadu gan ‘gestyll’ megis Lulworth, Dorset (1608) a Ruperra, Morgannwg (1629) ond roedd y cynllun cwrt hen ffasiwn oherwydd, o bosib, gadw gwaith a wnaed yn y 16G. Cafodd y tŷ ei asesu gyda 9 lle tân yn 1760, ac roedd felly yn sylweddol o ran maint.

3.4 Pan soniwyd am y pentref fel porthladd yn 1566, mae’n debyg bod ganddo lai na phum cartref, a bod hyn yn cyfeirio at yr aneddiadau yn union o amgylch y ceioedd cynnar. Mae pont yn cael ei chrybwyll yn 1598, ac mae hynny bron yn sicr yn cyfeirio at yr un yn Bubbleton, gyda’i llawr yn cael ei ailgodi yn y 18G. Arferai ffeiriau gael eu cynnal yn y pentref yn ystod y 16G gydag amrywiol ysgarmesau a gofnodwyd rhwng 1538 ac 1603, gan ddynodi pwysigrwydd y porthladd.

3.5 Gydag ehangiad Ystâd Cressely wedi priodas etifeddes Cresselley, Joan Bartlett gyda John Allen yn 1729, gwnaed mwy o fuddsoddiad yn y mwyngloddiau a cheioedd lleol. Bu i deulu Barlow hefyd fuddsoddi yn eu hystâd leol fel y gwnaeth teulu Powell oedd yn absennol o Harcourt. Yn ystod y cyfnod hwn, mae’n ymddangos bod y porthladd wedi cael ei ehangu i bum cei gyda iardiau glo mawr a chwlwm ar bob ochr i’r afon, gyda rhai i’r gorllewin yn goroesi o hyd. Mae’r strwythurau yma wedi eu marcio i gyd ar fap o 1755. Fel yn y dyddiau cynharach na hyn, roedd glo yn cael ei gludo i lawr yr afon i Lawrenny lle roedd yn cael ei ryddhau i longau mwy i’w allforio i Fryste, Llundain a hefyd Norfolk (ar gyfer yr odynnau sychu halen). Glo carreg oedd y glo lleol gyda lefelau uchel o garbon ynddo, gan ei wneud yn gyfyngedig o ran gallu ei ddefnyddio ar gyfer tannau domestig (ar wahân i’r glo mân neu ‘gwlm’ oedd yn cael ei gymysgu gyda chlai yn lleol, arfer wnaeth ond dod i ben yng nghanol y 20 G. Tyfodd y pentref ac adeiladwyd Tŷ Cresswell tua 1750 ar gyfer y teulu Bartlett, gan ddod yn fuan yn gartref ar gyfer asiant y lofa yn ogystal â thŷ tafarn (a fyddai’n dod yn ‘Square and Compass’, sydd bellach yn Cresselly Arms)

3.6 Roedd cyfyngiad llanw Cei Cresswell yn amharu ar effeithiolrwydd allforio fel ag yr oedd buddsoddiadau afreolaidd mewn mwyngloddiau newydd. Yn 1800, cafodd Cei Landshipping Quay ei adeiladu, ynghyd â thramffordd sy’n cysylltu’r mwyngloddiau gyda dyfroedd dyfnach. Rhoddodd hyn gychwyn ar ddirywiad Cei

Cresswell, a chyflymwyd hyn pan adeiladwyd Harbwr Llanusyllt (Saunderfoot) wedi 1829 - roedd hwn yn fuddsoddiad mawr a llwyddiannus, gyda'r harbwr mawr yn cysylltu gyda gwythiennau glo cynhyrchiol drwy dramffyrdd, twneli ac inclêns. Erbyn yr 1840au, roedd asiantaethau glofeydd lleol yn rhoi'r gorau i allforio o Gei Cresswell a dim ond un glöwr a gofnodir ar gyfrifiad 1841.

3.7 I'r de, codwyd Capel Pisgah gan y Bedyddwyr yn 1821, gan arwain at sefydlu anheddiad bach mewn bythynnod yno, wedi'u hadeiladu ar gyfer gweithwyr yn y chwareli calch yn West Williamston.

3.8 Er bod y diwydiant glo yn dirywio'n gyflym parhaodd Cei Cresswell yn ganolfan leol bwysig yn y 19G. Roedd yno dafarn ac amrywiaeth o fusnesau lleol gan gynnwys siop groser, cigydd, crydd, saer a'r efail yn Bubbleton. Parhaodd Melin Cresswell - a gofnodwyd gyntaf yn 1631 - i fod yn felin rawn leol. Daeth y pentref marwaidd yn boblogaidd gyda thwristiaid cynnar a gwnaed gwelliannau i'r Square and Compass a'i ymestyn i fod yn westy ffasiynol, a gafodd ei ailenwi yn Cresselly Arms.

3.9 Erbyn dechrau'r 20fed Ganrf, cai nwyddau eu cludo i fyny'r afon o Benfro er mwyn cyflenwi'r cydannedd bach oedd gan ffermwyr ar y cei glo oedd yn dal i weithio (sef maes parcio'r dafarn heddiw). Erbyn tua 1920, roedd y rhan fwyaf o'r busnesau lleol wedi dod i ben (gyda'r felin yn cau yn 1918) ond hyd yn oed yn ystod hanner olaf y 20G roedd y pentref yn cael ei gwasanaethu gan siop gyffredinol a siop y cigydd yn Pisgah. Heddiw, dim ond Cresselly Arms sy'n aros.

3.10 Mae'r pentref yn unigryw yng Nghymru gan fod llawer o'r isadeiledd cynnar sy'n gysylltiedig gyda'i ddyddiau cynnar fel porthladd glo wedi goroesi, yn fwyaf nodedig y ceioedd a'r llefydd dal glo. Mae nifer o'r adeiladau hŷn cysylltiedig yn parhau i fod yn gyfan, gan gynnwys Tŷ Cresswell a Melin Cresswell, fel ag y mae nifer o adeiladau llai megis hen siop y saer a siop y crydd. Mae etifeddiaeth archeolegol bwysig yn sail i hyn, ac yn fwyaf nodedig, gweddillion Castell Cresswell. Ychydig iawn o ddatblygiad newydd sydd wedi dod i'r pentref gyda thai sy'n ymddangosiadol newydd mewn gwirionedd yn strwythurau hŷn sydd wedi eu trawsnewid.

## Datblygiad


### Adeiladau

3.11 Fe wnaeth tai a bythynnod a adeiladwyd ar gyfer gweithwyr yn y diwydiant greu patrwm anheddiad nodedig a phensaernïaeth gynhenid, a datblygodd pentref wrth ochr y cei. Roeddent yn bennaf wedi clystyru mewn tair ardal, sef y cei ei hun, Bubbleton a Pisgah. Bubbleton oedd yr enw a roddwyd ar gasgliad o adeiladau a dyfodd yn agos at Bont Cresselly a thyfodd Pisgah o amgylch capel anghydffurfiol.

3.12 Ym Mhisgah, gyferbyn â'r capel mae rhes o fythynnod gweithwyr un llawr o'r 19eg ganrif, 1-4 Pisgah Cottages. Mae map o 1848 o 'Tenement on Carew Mountain' yn awgrymu bod o leiaf rhan o'r patrwm anheddiad hwn o ganlyniad i fwynwyr yn adeiladu bythynnod ar dir comin. Roedd y capel yn dyddio o 1821 ac fe'i hymestynnwyd yn 1877.

## Ceioedd

3.13 Yn wreiddiol, roedd 5 cei, neu rannau o geioedd yn cael eu defnyddio. Mae dau gei yn goroesi, un yn y maes parcio ac mae yna sylfaeni un arall yn union i lawr yr afon. Cafodd ffaldiau Glo (Pevsner) eu hadeiladu yn y cei er mwyn storio glo cyn ei roi ar y llong.




*Ffigwr 1: Mapiau'n dangos y defnydd blaenorol a wnaed o dir yng Nghei Cresswell.*

## Coetir

3.14 Mae Coetir yn nodwedd bwysig o'r dyffryn ac mae wedi bod yn adnodd pwysig dros y canrifoedd. Cafodd y goedwig sy'n gysylltiedig gyda'r plasty ei disgrifio gan George Owen tua 1600 fel bod 'yn ddigonol ar gyfer darparu tanwydd a pheth ar gyfer adeiladau'.

# 4 Dadansoddiad o Gymeriad

4.1 Prif nodweddion:

- Mae cymeriad Cei Cresswell wedi'i gysylltu yn y bôn gyda'i hanes a'i ddatblygiad.
- Mae'r Ardal Gadwraeth o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol, ac yn cadw llawer o dystiolaeth o'i orffennol.
- Tyfodd cynllun y pentref o amgylch y diwydiant glo.
- Ychydig o newid sydd wedi'i wneud i'r pentref gan ddatblygiadau diweddarach ac mae'n
- dipyn o drysor cudd.
- Mae'r Ardal Gadwraeth yn mwynhau lleoliad hyfryd ar lan yr afon
- Mae cymeriad yr adeiladau yn bennaf yn dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif neu ddechrau'r 18fed ganrif. Mae'r chwaeth bensaernïol fel arfer yn syml, gan gynnwys rendro, ffenestri codi a thoeon llechi.
- Mae'r prif strwythurau ac adeiladau yn cynnwys Cei Cresswell, Castell Cresswell, Cresswell Arms, Pont Cresswell, Melin Cresswell, Capel Pisgah, Pisgah Cottages, Back Cottages a Thŷ Cresswell.
- Mae coed ac ochrau'r dyffryn coediog, serth o bob ochr i'r afon yn bwysig i gymeriad yr ardal.
- Mae nodweddion allweddol ar y stryd yn cynnwys y blwch postio, arwydd AA a blwch ffonio.

## Dynodiadau

4.2 Mae yna nifer o ddynodiadau strwythurau adeiladau a thir o fewn Cei Cresswell:

- Mae yna ddwy **Heneb Gofrestredig** o fewn Cei Cresswell, Castell Cresswell (PE396) a Chei Cresswell (PE492).
- Mae yna **Barc a Gardd Rhestredig**, Parc a Gardd Rhestredig Ystâd Cresselly, parc tirlun o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n gysylltiedig gyda Thŷ Cresselly, ac sy'n ymestyn i lawr i Gei Cresswell.
- Mae Cei Cresswell o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig 'HLW (D) 3 Dyfrffordd Daugleddau.'
- Mae yna nifer o **adeiladau rhestredig** gradd II ac adeileddau rhestredig o fewn y pentref, gan gynnwys: y Cresselly Arms (15930), Tŷ Cresswell (15931), Cei Cresswell (15932), Melin Flawd Cresswell (18294), Tŷ Melin Cresswell (18295), Pont Cei Cresswell (18296), 1 a 2 Back Cottages (84386), Siop y Crydd (84387), Bwthyn yr Odyn (Kiln Cottage 82388), Cegin allanol ym Mwthyn yr Odyn (84389), Hen Siop y Saer (84390) a'r Blwch Ffôn (84391).


Mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map Ardal Gadwraeth gydag **adeiladau positif** (adeiladau allweddol sydd heb fod yn rhestredig sy'n gwneud cyfraniad positif tuag at strydlun y pentref a lleoliad y pentref ac i gymeriad yr ardal gadwraeth.

4.3 Yn ogystal â dynodiadau hanesyddol ac archaeolegol sy'n cynnwys henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, ceir olion archaeolegol nad ydynt wedi'u dynodi hefyd. Ar hyn o bryd (yn 2025), mae 35 cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer yr ardal, gyda'r mwyafrif yn perthyn i'r cyfnod ôl-ganoloesol. Mae'n debygol bod rhagor o olion archaeolegol yn bodoli nad ydynt wedi'u datguddio hyd yma.

4.4 Mae gan Yr Awdurdod Glo gofnodion sy’n dangos bod nodweddion cloddio am lo i’w cael ar yr wyneb ac ar ddyfnderoedd bas, gan gynnwys mynedfeydd glofeydd, gweithfeydd glo a pheryglon ar yr wyneb yr adroddwyd amdanynt. Gallai’r nodweddion hyn fod yn berygl posib i sefydlogrwydd arwyneb y tir a diogelwch y cyhoedd.

## Coed a bioamrywiaeth

4.5 Mae yna ardaloedd o goetir wedi’i gynnwys o fewn yr Ardal Gadwraeth sydd yn elwa o **Orchmynion Cadw Coed.** Mae Coedwig Scotland yn darparu cefnlen hyfryd i’r ffald glo a Chastell Cresswell. Yn ogystal, mae yna goed aeddfed ysblennydd i’w cael o fewn yr Ardal Gadwraeth a gerllaw iddi. Nid yn unig yw’r coed a’r coetir yma yn helpu i greu cymeriad Cei Cresswell, ond maent hefyd yn darparu gwerth bioamrywiaeth. Mae tir o amgylch afon Cresswell, gan gynnwys peth o’r glannau sy’n arwain ati hefyd wedi eu dynodi fel Safle o ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae’r map yn adnabod **coed/grwpiau o goed pwysig.**


Ardal Gadwraeth Cei Cresswell
Dynodedig
/Designated Cresswell Quay
Conservation Area
0
100
200 m
Golygfa allweddol/
Key Views
Parciau a Gerddi Hanesyddol
Cofrestredig/Registered
Historic Parks
and Gardens
Henebion Rhestredig/
Scheduled Ancient Monument
Ardal Gadwraeth Ddynodedig/
Designated Conservation Area
Adeiladau Rhestredig/
Listed Buildings
Gorchymyn Cadw Coed/
Coed sy'n bwysig I'r lleoliad/
Tree Preservation Order/
Trees Important to Setting
Ardaloedd Agored hanfodol/
Essential Open Areas
Adeiladau ynni positif/
Positive Buildings
Ardaloedd sy'n bwysig i osodiad a
chymeriad yr ardal gadwraeth
arfaethedig/
Areas Important to Setting
and Character of The
Proposed Conservation Area
© Crown copyright and database rights Ordnance Survey
AC0000810561, 2024/© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa
ddata Arolwg Ordnans AC0000810561, 2024
Designated Historic Asset GIS Data, The Welsh Historic
Environment Service (Cadw), 2024, licensed under the Open
Government Licence/Data GIS ar Asedau Hanesyddol
Dynodedig, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru
(Cadw), 2024, wedi'u trwyddedu o dan Drwydded
Llywodraeth Agored http://www.nationalarchives.gov.uk/doc
/open-government-licence/version/3/
BABB
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# 5 Yr Ardal Gadwraeth a'i Lleoliad

## Lleoliad topograffi

5.1 Mae Cei Cresswell yn swatio mewn dyffryn coediog ag iddo ochrau serth sy'n cynnwys mannau llanw uchel afon Cresswell. Mae'r golygfeydd i Gei Cresswell wedi'u cyfyngu gan y topograffi. Mae'r afon yn crwydro, felly hyd yn oed o'r fan yma dyw golygfeydd o bell ddim yn bosib. Mae glannau mannau uchaf afon Cresswell wedi'u nodweddu gan ardaloedd coediog sy'n dod i ben ger y nod dŵr uchel. Mae Cresswell ar fan uchaf ystod y llanw a gall llanw uchel i ben ochr y cei adeg Llanw'r Gwanwyn gymryd lle'r glannau mwdlyd a'r afon fechan. Mae'r pentref wedi'i gysgodi rhag y prifwyntoedd gan ochrau'r dyffryn ond y mae hefyd yn fan rhewllyd yn y gaeaf pan mae'r haul isel yn llai effeithiol.

## Ffyrdd Dynesu

5.2 Mae yna bedair ffordd ar gyfer cerbyd i gyrraedd Cei Cresswell. Ar y ffordd o'r de, drwy Whitehill, mae'r fynedfa wedi ei nodi gan glwstwr deniadol o adeiladau wedi'u hamgylchynu gan waliau cerrig, gan gynnwys Capel Pisgah, yr ysgoldy a phreswylfeydd y cyn-weithwyr a adwaenir fel Pisgah Cottages.

5.3 Wrth basio'r rhain a mynd i lawr y dyffryn, mae'r ffordd yn croesi Pont Cresswell a chyrraedd at y cei. Wrth galon y pentref saif Cei Cresswell, ac fel amgylchynir yr un sydd wedi cadw orau (mae adfeilion y lleill i'w gweld) gan glwstwr o adeiladau gan gynnwys y Cresselly Arms. Wrth ochr y cei mae golygfeydd ar draws yr afon i'r hen ffaldiau glo, i Goedwig Scotland, y garreg gamu ac i fyny'r afon tuag at Gastell Cresswell.

5.4 Ar ben arall y pentref mae'r ffordd o'r gogledd a Lawrenny yn dechrau gyda chyrraedd Pont Cresswell, ac oddi yno mae golygfeydd i fyny ac i lawr yr afon o Felin Cresswell a Chastell Cresswell. Mae'r bont garreg a'r waliau terfyn carreg yn nodweddion amlwg ar y ffordd yma.

5.5. I'r de mae grŵp o dai yn Bubbleton sydd wedi'u lleoli ger cyffordd lle mae'r drydedd ffordd yn mynd i mewn i'r pentref. Yn tra arglwyddiaethu dros yr olygfa gyntaf o'r pentref o'r cyfeiriad yma mae rhif 1 a rhif 2 Bubbleton Cottages.

5.6 Ymhellach i'r de eto, mae'r bedwaredd ffordd i'r pentref yn cwrdd gyda glan yr afon. Mae'r ffordd hon yn mynd i lawr i'r dyffryn heibio Back Cottages a hen siop y crydd, heibio i Fwthyn yr Odyn (Kiln Cottage) ac yn cwrdd â glan yr afon gyda golygfeydd tuag at y cei ar draws y ffaldiau glo, y cerrig camu a Choedwig Scotland.

## Layout

5.7 Dyma ardal dirlun hanesyddol gymysg sydd wedi uno gan y diwydiant mwyngloddio glo blaenorol a'i batrwm anheddle nodedig sy'n swatio yn nyffryn yr afon gyda'r tir ffermio o amgylch. Mae'r tai yn amrywio ac yn cynnwys tai Sioraidd mawr, o ddiwedd y 18fed ganrif neu ddechrau'r 19eg ganrif, tai brodorol lleol, terasau o dai gweithwyr o'r 19eg ganrif a bythynnod llawr sengl o'r 19eg ganrif.

## Defnydd

5.8 Tyfodd Cei Cresswell wrth i'r cei gael ei ddefnyddio a'r diwydiant glo fynd rhagddo. Mae'r cei yn ffurfio canol y pentref wedi'i amgylchynu gan amrywiaeth o adeiladau sy'n adlewyrchu'r preswylwyr a'u pwrpas. Mae rhai o'r enwau megis 'The Stores', 'Tŷ Melin Cresswell' (Cresswell Mill House) a 'Bwthyn yr Odyn' (Kiln Cottage) yn arwydd o hyn. Heddiw mae gweithgarwch masnachol wedi'u canoli'n bennaf yn y dafarn.

5.9 Mae Pisgah yn cynnwys grŵp bychan o adeiladau o amgylch Capel y Bedyddwyr. Gyferbyn â'r capel mae dau deras bychan o fythynnod gweithwyr un llawr o'r 19eg ganrif. Mae'r capel, yr ysgoldy gyda'i gefnlen o hen goed sefydlog a'r bythynnod yn creu gosodiad pictwrésg. Does yr un o'r rhain yn rhestredig ond mae pob un wedi'i adnabod fel adeilad positif.



*Ffigwr 2: Ffotograff yn dangos bythynnod gweithwyr llawr sengl o'r 19eg ganrif sy'n enghreifftiau o adeiladau positif*

5.10 Mae Bubbleton yn grŵp o adeiladau preswyl ychydig i fyny'r afon o'r ceioedd ar y gyffordd gyda Millway Lane. Mae rhai wedi eu haddasu ond maent wedi cadw craidd yr adeiladau. Mae Back Cottages yn bâr o fythynnod gweithwyr o'r 19eg ganrif ac roedd hen siop grydd a Bwthyn yr Odyn (Kiln Cottage) unwaith yn bâr o fythynnod gweithwyr ochr yn ochr â'r hyn sy'n aros o'r Hen Siop Saer.

5.11 Tra ei fod yn anheddiad diwydiannol yn wreiddiol mae Ardal Gadwraeth Cei Cresswell yn awr yn bennaf yn ardal breswyl o ran ei defnydd a'i chymeriad.

## Mannau agored hanfodol

5.12 Mae'r ardal agored o flaen yr afon yn fan agored dynodedig yn y Cynllun Datblygu Lleol.  Mae'r ardal hon yn bwysig ar gyfer sicrhau golygfeydd amlwg drwy'r pentref. Mae hefyd yn ofod chwarae anffurfiol pwysig, yn llecyn picnic ac mae'n darparu mynediad anffurfiol at yr afon.

## Coed a bioamrywiaeth

5.13 Mae yna ddarnau pwysig o goetir cymysg a choed o fewn Cei Cresswell. Nid yn unig yw'r coed yma yn helpu i greu cymeriad Cei Cresswell, ond maent hefyd yn darparu gwerth bioamrywiaeth. Mae Coedwig Scotland o bwys arbennig gan ei fod yn darparu cefnlen hyfryd i'r ffaldiau glo a Chastell Cresswell. Mae coed unigol hefyd yn cyfrannu at y lleoliad ac yn fframio golygfeydd ar y ffyrdd i mewn i'r pentref o fewn Cei Cresswell.



*Ffigwr 3: Ffotograff yn dangos coed sy'n fframio'r golygfeydd tuag at Bubbleton sydd i'w gweld ar draws y man agored*

## Eiddo i'r cyhoedd

5.14 Er mai perchnogaeth breifat sydd i'r cei, fwy na thebyg dyma un o'r llefydd pwysicaf sydd yn dir y cyhoedd yn y pentref ac mae wedi'i ddynodi fel llecyn man agored yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gyferbyn â'r Cresselly Arms, fe'i defnyddir yn aml ar gyfer digwyddiadau cymunedol a digwyddiadau eraill. Yn arwain ohono mae glannau'r afon agored sy'n darparu man anffurfiol sy'n dir i'r cyhoedd er mwyn i deuluoedd ei fwynhau ac fel ffordd o gal mynediad at yr afon.



*Ffigwr 4: Ffotograff yn dangos y defnydd a wneir o dir y cyhoedd yn y pentref ar gyfer digwyddiadau*

## Cysylltiadau hanesyddol

5.15 Y cysylltiad hanesyddol pwysicaf sydd gan Gei Cresswell yw gyda'r diwydiant glo cynnar yn Sir Benfro.

## Gwerth cymunol

5.16 Mae Cei Cresswell yn cael ei ystyried gan lawer yn drysor cudd. Mae'n lle poblogaidd i ymweld ag o. Mae pobl yn ymweld er mwyn cerdded o amgylch yr ardal leol, croeso'r dafarn, cael mynediad at yr afon (caiacio a gweithgareddau dŵr hamdden) a mynd ar gwch i'r cei ar lanw uchel. Gall rhai gyda'r nosau fod yn brysur iawn yn yr haf gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal ar y Cei.



*Ffigwr 5: Ffotograff yn dangos yr afon yn cael ei defnyddio ar gyfer caiacio*

# 6 Deunyddiau Adeiladu

6.1 Er ei fod yn anheddiad sydd wedi'i sylfaenu ar ddiwydiant ac adeiladau masnachol, dim ond un adeilad masnachol sydd gan y pentref bellach, sef y Cresselly Arms. Er bod rhai wedi trawsnewid o ddefnyddiau eraill, mae'r adeiladau sy'n parhau yn cael eu defnyddio fel preswylfeydd. Un o gryfderau Cei Cresswell yw mai ychydig iawn sydd wedi newid dros y blynyddoedd. Mae'r preswylfeydd yn amrywiol o ran arddull a maint gan adlewyrchu ar gyfer pwy y cawsant eu hadeiladu, gan gynnwys tai mawr o ddiwedd y 18fed ganrif neu ddechrau'r 19eg ganrif, Mans, tai brodorol bach, terasau o dai gweithwyr o'r 19eg ganrif a bythynnod llawr sengl o'r 19eg ganrif. Mae'r holl breswylfeydd wedi eu hadeiladu o garreg (rhai wedi eu rendro gyda sment, rhai wedi'u paentio) gyda thoeau llechi.

## Waliau

6.2 Wedi'u gwneud yn draddodiadol o rwbel lleol, ac wedi eu rendro fel arfer. Mae ychydig gyda cherrig yn amlwg. Mae'r waliau sydd wedi rendro yn aml heb eu paentio. O bryd i'w gilydd mae'r bythynnod wedi cael eu paentio mewn lliw yn hytrach na chael eu rendro. Mae bandiau addurniadol i'r rendro yn gyffredin o amgylch drysau yn arbennig. Mae rhai tai mwy wedi eu rhicio gyda manylion ar y rendr.




*Ffigwr 6: Ffotograff yn dangos eiddo gyda rendr heb ei baentio*



*Ffigwr 7: Ffotograff yn dangos carreg sy'n amlwg ar yr eiddo*



*Ffigwr 8: Ffotograff yn dangos adeilad gyda rendr wedi rhicio*


*Ffigwr 9: Ffotograff yn dangos eiddo gyda rendro wedi rhicio a heb ei baentio*

## Ffenestri

6.3 Ffenestri codi ar i fyny'n bennaf, gyda phedair chwarel fel arfer, ond rhai gyda 12 chwarel. Ffenestri pedair chwarel fel arfer gyda chyrn



*Ffigwr 10: Ffotograff yn dangos ffenest godi 4 chwarel*



*Ffigwr 11: Ffotograff yn dangos ffenest godi 4 chwarel gyda manylion corn*



*Ffigwr 12: Ffotograff yn dangos ffenest godi 12 chwarel*

Ychydig o ffenestri bae sydd yna, er enghraifft bae cantilifrog, hirsgwar ar Cresselly Arms a baeau ar ogwydd ar Dŷ Cresswell a'r Cresselly Arms.



*Ffigwr 13:* Ffotograff yn dangos ffenest fae cantilifrog hirsgwar




*Ffigwr 14: Ffotograff yn dangos ffenest fae ar ogwydd*

## Drysau

Drysau bordiog syml ar gyfer bythynnod gweithwyr, drysau pedwar panel ar gyfer tai mwy. Mae gan rai drysau ffenestri linter, weithiau gyda gwydr lliw.




*Ffigwr 15: Ffotograff yn dangos bwrdd bordiog wedi'i baentio'n goch*



*Ffigwr 16:* Ffotograff yn dangos drws gyda phaneli a manylion gwydr uwch ei ben.

## Toeau

Mae toeau fel arfer yn dalcennog ac yn rhai llechi, gydag ymylon wedi pwyntio gyda sment. Mae gan rai fandiau rendro. Mae ymylon bondo yn bresennol ar yr adeiladau mwy ffurfiol megis Capel Pisgah a'r Mans.
Fel arfer, mae gan y toeau deils crib clai llwyd, uniad bôn, bondo caëedig.




*Ffigwr 17:* Ffotograff yn dangos to talcennog, o lechi.



*Ffigwr 18:* Ffotograff yn dangos grŵp o adeiladau gyda thoeau ar oleddf ac yn dalcennog.

## Simneiau

Mae simneiau wedi eu rendro gan mwyaf. Mae ychydig o simneiau carreg heb eu rendro yn bodoli. Mae yna simneiau brics llwydfelyn a glas yn y Mans ond fel arall mae’r simneiau fel arfer o frics coch ac yn gorbelog.



*Ffigwr 19*: Ffotograff yn dangos simnai wedi’i rendro’n esmwyth



*Ffigwr 20*: Ffotograff yn dangos simnai wedi’i rendro gyda phlastr garw.



*Ffigwr 21*: Ffotograff yn dangos simneiau llwydfelyn a glas lliwgar ar y Mans.

## Ffiniau a Waliau

Un nodwedd o’r pentref yw’r waliau cerrig sydd nid yn unig yn amgáu o flaen eiddo ond hefyd yn nodwedd i’r cei a’r pontydd yn y pentref. Mae gan y waliau orffeniad ‘ceiliog a iâr’ ar ben y wal, neu ben wal ar oleddf wedi’i rendro. Mae gan rai waliau orffeniad wedi’i rendro, heb ei baentio.



*Ffigwr 22: Ffotograff yn dangos wal derfyn garreg gyda gorffeniad ‘ceiliog a iâr’ ar ben y wal.*



*Ffigwr 23: Ffotograff yn dangos copa crom wedi’i rendro ar waliau cerrig yn y pentref.*



*Ffigwr 24: Ffotograff yn dangos enghraifft o gopaon ar oleddf wedi'u rendro ar waliau cerrig o amgylch y pentref.*


*Ffigwr 25: Ffotograff yn dangos piler carreg sydd wedi cael ei gadw.*

## Dodrefn stryd

Mae dodrefn stryd traddodiadol yn ychwanegu at y cymeriad gan gynnwys blwch postio a blwch ffonio’r pentref ac arwydd Automobile Association (AA).



*Ffigwr 26*: Ffotograff yn dangos y blwch postio coch sydd wedi suddo i mewn i wal garreg



*Ffigwr 27*: Ffotograff yn dangos y blwch postio traddodiadol




*Ffigwr 28*: Ffotograff yn dangos arwydd Automobile Association hanesyddol

# 7 Lleoliad Tirwedd ac Afon (Prif Olygfeydd)

7.1 O fewn Tirwedd Hanesyddol Restredig Dyfrffordd Aberdaugleddau Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro LCA 28, yn disgrifio ardal gymeriad Daugleddau fel ‘tirwedd heddychlon, gaeëdig a phersonol yn cynnwys afon forydol ac ardaloedd glannau’r afon a gwastadeddau llaid cysylltiedig, wedi’i amgylchynu gan goetir eang, tirwedd fosaig o barcdir, coetir cymysg a chaeau. *Yr afon yw’r ffactor pennaf sy’n uno, gan ddarparu ymdeimlad cryf o le ar gyfer yr ardaloedd cyfagos’.*

7.2 Mae Cei Cresswell wedi’i leoli mewn dyffryn coediog, serth sy’n amgylchynu un o fannau uchaf yr afon, y Cleddau Ddu i’r dwyrain. Mae ochrau’r dyffryn yn codi’n serth mewn cyfres o fryniau crynion, ac mae ganddo gymeriad hyfryd, pictwrésg.

7.3 Mae Cresswell Quay yn ardal tirwedd hanesyddol sydd wedi’i siapio gan y diwydiant mwyngloddio blaenorol a phatrwm anheddiad nodedig sy’n cyferbynnu gyda’r ffermdir o amgylch. Mae Cei Cresswell wedi’i leoli ar ben eithaf llanw afon Cresswell, rhan o’r Cleddau Ddu i’r dwyrain.

7.4 Mae Cei Cresswell wedi’i leoli o fewn cymuned Jeffreyston ac yn ymestyn i Gymunedau Caeriw a Martletwy. Mae Pont Cresswell a’r afon i’r dwyrain yn ffurfio rhan o ffin yr awdurdod cynllunio lleol gyda Chyngor Sir Penfro.

7.5 Mae topograffi Cei Cresswell, yn arbennig felly ochrau serth y dyffryn yn amgáu’r pentref mewn ffordd naturiol o ran gofod. Mae ochrau’r dyffryn hefyd yn darparu cefnlen i nifer o olygfeydd yn y pentref ac oddi amgylch iddo. Mae gan y pentref bedair ffordd sy’n arwain ato ac mae’r golygfeydd o’r cyfeiriadau hyn yn bwysig i gymeriad y pentref fel ag y mae’r ffordd i’r afon ei hun ac oddi yno, yn arbennig felly o i lawr yr afon.

7.6 Mae dadansoddiad o hen fapiau’n dangos nad yw llawer o’r ffiniau tir wedi newid. O fewn canol y pentref mae ardal laswelltog yn bennaf sydd hefyd yn rhan o lan yr afon. Roedd hyn yn rhan o’r ceioedd. Mae hwn yn fan agored dynodedig o fewn y polisi cynllunio ac mae’n lleoliad pwysig i gael mynediad at yr afon, chwarae anffurfiol, picnic ac ati. Ar achlysuron prysur bydd parcio ceir anffurfiol wedi’i leoli ar hyd ochr y brif ffordd.

## Golygfeydd amlwg.

7.7 Mae golygfeydd amlwg i’r Ardal Gadwraeth yn gyfyngedig oherwydd y topograffi. Fodd bynnag, mae yna olygfeydd amlwg allweddol o fewn yr ardal Gadwraeth, fel y dangosir yn y ffotograffau canlynol.



*Ffigwr 29*: Ffotograff yn dangos golygfa o Gei Cresswell wedi'i gymryd o'r llwybr troed ger Capel Pisgah.



*Ffigwr 30*: Ffotograff yn dangos golygfa o'r man agored ar hyd ochr yr afon yn edrych tuag at Gei Cresswell.



*Ffigwr 31:* Ffotograff yn dangos golygfa yn edrych i lawr yr afon o Gei Cresswell. Yr hen ffaldiau glo ar ochr arall yr afon gyda Scotland Wood yn y cefndir.



*Ffigwr 32*: Ffotograff yn dangos yr olygfa yn edrych i fyny'r afon tuag at Gastell Cresswell gyda Scotland Wood yn gefnlen iddo.



*Ffigwr 33*: Ffotograff yn dangos y cerrig camu i'r hen ffaldiau glo a Scotland Wood.



*Ffigwr 34*: Ffotograff yn dangos yr olygfa o gyfeiriad y llwybr cyhoeddus tuag at Back Cottages.



*Ffigwr 35*: Ffotograff yn dangos golygfa o Gastell Cresswell o lwybr cyhoeddus.



*Ffigwr 36*: Ffotograff yn dangos golygfa o Gastell Cresswell o Bont Cresswell.



*Ffigwr 37*: Ffotograff yn dangos Melin Cresswell.



Ffigwr 38: Ffotograff yn dangos tir Castell Pisgah a’r coed sy’n ychwanegu at gymeriad y lleoliad.

# 8 Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

8.1 Gall addasiadau modern amhriodol effeithio'n andwyol ar ymddangosiad golygon adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol yn gorfforol i’r adeiladwaith hanesyddol. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol pwysig sydd dan fygythiad o addasiadau o'r fath mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a chasinau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw, a photiau a chyrn simnai. Mae'n bwysig, felly, bod perchnogion a deiliaid eiddo yn mabwysiadu'r dull cywir o atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn. Mae cronni manylion bach ar y strydlun yn rhan annatod o'i gymeriad ac mae angen gofal arbennig i'w gwarchod.

8.2 Dylai'r gwaith arfaethedig gynnwys asesu pob safle ac adeilad o ran ei gyfraniad at gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, ei werth hanesyddol, ei ffurf adeiladu a'i berfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i oroesiad ei adeiladwaith. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylai unrhyw waith i adeiladau mwy ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol fod yn seiliedig ar gynllun cadwraeth a ymchwiliwyd yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yn gynaliadwy yng Nghymru https: //cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciplesDLE/u400<3inneach. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn atal newid ond mae'n ffurfio fframwaith i’r dref ddatblygu ynddo heb golli unrhyw un o'r priodoleddau sy'n ei gwneud yn arbennig.

## Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig

8.3 Mae’r rhain yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Mae rheolaeth adeiladau rhestredig yn cael ei weithredu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a rheolaeth Henebion Cofrestredig gan Cadw. Mae rhestru adeiladau yn cynnwys eu tu allan, y tu mewn a'r cwrtilau hanesyddol (y myth cyffredin yw bod rhestru'n berthnasol i ffasadau yn unig).

## Cynnal a Chadw

8.4 Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i adeilad yw’r ffordd orau a mwyaf economaidd o gadw ei adeiladwaith. Cyfrifoldeb perchnogion a phreswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy’n cael ei edrych ar ei ôl yn cadw ei werth a bydd yr angen am waith atgyweirio helaeth yn cael ei osgoi. Y mater pwysicaf yw amddiffyn rhag dŵr a thamprwydd. Y pethau cyntaf y dylid eu hatgyweirio yw toeau, landeri a pheipiau dŵr. Efallai y bydd perchnogion adeiladau mawr yn ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

## Gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd

8.5 Dylai perchnogion adeiladau a phreswylwyr sicrhau bod y tasgau canlynol yn cael eu gwneud yn rheolaidd:

- Clirio dail a malurion yn enwedig ar ôl yr hydref a chanolbwyntio'n benodol ar gwteri a nwyddau dŵr glaw. Cyfnod o law trwm yw'r amser gorau i weld unrhyw ddiffygion.
- Rheoli twf planhigion sy'n gallu cyflymu dirywio ac weithiau achosi niwed i strwythur adeiladau. Dylid lladd eiddew trwy ei dorri wrth ymyl y ddaear a gadael iddo wywo cyn ceisio tynnu'r gwreiddiau o'r wal. Mae angen defnyddio chwynladdwr i gael gwared ar falerian.
- Chwilio am ymosodiadau gan bryfed a ffyngau sy'n gallu cael eu hachosi gan damprwydd ac awyru gwael.
- Gwirio awyru i sicrhau nad yw unrhyw ddellt sy'n awyru mannau o dan y lloriau wedi'u blocio. Gall diffyg awyru arwain at amodau lle gall pydredd ffwngaidd gydio.

8.6 Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am atgyweiriadau mawr i'r holl adeiladau a dylai atgyweirio nodweddion gwreiddiol fod yr opsiwn cyntaf i'w ystyried bob amser. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau yn cyrraedd diwedd eu hoes yn y pen draw, ac os felly bydd yn rhaid ystyried ailosod gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio profedig. Y dewis arall yw colli gwerth hanesyddol adeiladau unigol ac erydiad graddol diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau yn yr ardal gadwraeth yw atal, neu arafu o leiaf, y broses o bydru heb niweidio na newid nodweddion sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol/pensaernïol.

8.7 Gall diffyg gwaith cynnal a chadw parhaus arwain at ddirywiad yn adeiladwaith yr adeilad, er enghraifft, os oes gwteri ar goll neu os na chaiff toeau sy'n gollwng eu hatgyweirio, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio i rannau o'r adeilad sydd dan fygythiad.

## Toeau

8.8 Toeon ardal drefol sy'n ffurfio'r nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac mae'n rhan bwysig iawn o'i hunaniaeth. Y cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a chasgliad sy'n creu'r 'het', sy'n eistedd uwchlaw'r adeilad ac sy'n hanfodol i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion yn weledol ar lefel y stryd bob amser, mae'r topograffi lleol yn caniatáu golygfeydd tuag at, ar draws a thros y toeon o rannau gwahanol o'r dref. Mae'r to, yn ôl ei natur, yn rhan hanfodol o amddiffynfa adeilad rhag y tywydd ac, fel y cyfryw, dyma un o'r ardaloedd pwysicaf i ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arni.

### Gorchuddion Toeau

8.9 Mae'r rhan fwyaf o eiddo'n defnyddio llechi naturiol, a dylid defnyddio'r rhain ar gyfer unrhyw waith atgyweirio neu ddisodli. Dylai cribau, bargodion a manylion eraill gael eu gosod mewn mortar gydag uniadau bôn. Nid yw'n briodol defnyddio teils concrid a chlai.

8.10 Mae llechi naturiol wedi'u mewnforio sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol, ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydnawsedd pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Mae llechi artiffisial, er eu bod weithiau'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth ddeunydd naturiol pan fyddant yn newydd, yn hindreulio mewn ffordd wahanol a bydd, dros amser, yn ymddangos yn wahanol i'r cynnyrch go iawn. Os caiff y to ei inswleiddio, dylid ei osod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, os yw'r awyru yn ddigonol (drwy fylchau yn y bondo, nid tyllau aer sy’n cael eu gosod ar oleddf y to). Bydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to gan arwain at broblemau posibl mewn manylion yn y bondo a lle mae'n ffinio ag adeiladau eraill. Fodd bynnag, gall cyflwyno lefelau uchel o inswleiddio i adeiladau hŷn achosi anwedd a dirywiad dilynol.

## Ffenestri to a dormerau

8.11 Pan gaiff croglofftydd eu trawsnewid a bod angen ffenestri to neu ddormerau, dylid eu gosod fel arfer ar gefnluniau gan eu bod yn torri ar draws llinell barhaus goleddf y to ar ochr y stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd, lle nad oedd dormerau yn bodoli o'r blaen, lle y bo'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a maint a chydbwysedd ffurf a chasgliad yr adeilad. Lle mae dormerau gwreiddiol yn bodoli, dylid hefyd osgoi unrhyw newidiadau i'r mesuriadau a'r maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern o ffenestri to haearn bwrw cynnar (i'r mesuriadau a'r maint cywir, ynghyd â bar gwydro fertigol) er mwyn cadw cymeriad y to cymaint â phosibl. Mae gan lawer o weithgynhyrchwyr ffenestri Ffenestri To Cadwraeth gwydr dwbl arbennig, sydd wedi'u cynllunio i eistedd ar arwyneb y to.

## Simneiau a Chyrn Simneiau

8.12 Mae cyrn a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simnai a'u hatgyweirio gan osod potiau clai newydd yn ôl yr angen. Pan fydd corn gwreiddiol wedi'i wneud yn fyrrach, yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Lle na cheir unrhyw dystiolaeth bod patrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw at yr arddull lleol, yn nodweddiadol gyda chyrsiau corbelog yn y bargodi ar y pen. Mae'r mwyafrif o gyrn simnai o frics coch, ond beth bynnag fo'r deunyddiau, dylid dilyn yr adeiladwaith gwreiddiol.

## Paneli Solar Dŵr Poeth a Phaneli Solar Ffotofoltäig

8.13 Bydd yr angen i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn cael ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn cymeriad ac ymddangosiad yr ardal wrth ddelio â chynigion ar gyfer paneli solar mewn Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd sensitifrwydd yr Ardal Gadwraeth i addasiadau modern, bydd angen ystyried lleoliad a dyluniad y paneli yn ofalus.

8.14 Er gwaethaf hawliau datblygu cyfredol a ganiateir i berchnogion tai, ni fydd gosod cyfarpar microgynhyrchu paneli yn addas ar brif weddau adeiladau neu mewn lleoliadau amlwg o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Dylid ystyried lleoliadau amgen yng

nghefn adeiladau, ar dai allan atodol neu wedi'u gosod ar y ddaear, lle na fyddai'r paneli yn weladwy o'r briffordd. Ni ddylent estyn allan yn fwy na 200mm o’r to neu arwyneb y wal. Mae llechi solar ynghyd â nifer gynyddol o gynnyrch 'ystod dreftadaeth' ar gael.

8.15 Dylai’r paneli fod o liw tywyll a dylai’r fframiau fod yn ddu mat neu lwyd. Dylid osgoi paneli glas lliw golau safonol gyda fframiau llwyd golau adlewyrchol. Dylid ystyried paneli integredig a llechi solar hefyd.

## Landeri a Pheipiau Dŵr

8.16 Dylid ystyried defnyddio landeri haearn bwrw traddodiadol (neu alwminiwm bwrw) wrth adfer adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio landeri hanner crwn syml bob amser ar adeiladau cynharach. Mae landeri patrwm hanner crwn ac ogee yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Nid yw deunyddiau uPVC rhatach mor gryf ag haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac maent yn fwy agored i effaith a difrod tywydd, yn ogystal â chamdroad, sydd weithiau'n effeithio ar raddiant a chwymp naturiol landeri gyda'r risg o ganlyniad o ollyngiadau a threiddiad dŵr i mewn i adeiladwaith yr adeilad. Gall uPVC o ansawdd uwch fod yn addas mewn cyd-destun modern neu i weddau llai.

## Ffenestri a gwydro

8.17 Ffenestri yw 'llygaid' adeilad a chanolbwynt ei gymeriad. Ffenestri codi llithro â hongiad dwbl sydd i’w gweld yn bennaf yn yr ardal gadwraeth. Mae newidiadau i fesuriadau agoriadau ffenestri a/neu'r ffenestri eu hunain yn anochel yn cael effaith andwyol ar ffasâd yr adeilad yn gyffredinol. Dylid osgoi ymgorffori holltau awyru, oherwydd eu heffaith andwyol ar y cymeriad cyffredinol.

8.18 Dylid cadw ffenestri codi gwreiddiol bob amser a'u hatgyweirio, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml y bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle. Mae dadfeiliad fel arfer i'w weld o gwmpas y siliau lle gellir asio pren newydd i mewn. Mae'r gwydr crwm neu’r gwydr silindr gwreiddiol yn deneuach gydag arwyneb mwy anwastad o gymharu â gwydr nofiol modern gan roi adlewyrchiadau mwy cynnil, a lle mae wedi goroesi, dylid ei gadw bob amser. Mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach ar wydr modern trymach er mwyn gwrthbwyso'r ffenestr. Pan fydd yn rhaid gosod ffenestr newydd, yn hytrach na'i hatgyweirio, dylai'r ffenestr newydd fod yn un pren a dylai gyd-fynd yn union â'r ffenestr wreiddiol. Lle bo gwydr dwbl yn bosibl, rhaid rabedu’r unedau wedi'u selio yn draddodiadol a rhaid iddynt fod o fanyleb fain er mwyn caniatáu manylion saernïaeth main traddodiadol. Dylid cadw silliau ffenestr llechi gwreiddiol lle y bo'n bosibl.

8.19 Mae cael gwared â ffenestri anghydnaws nad ydynt yn wreiddiol i'r adeilad, a gosod rhai i efelychu'r math a'r patrwm hanesyddol yn cael ei annog. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol wedi cael eu newid yn amhriodol, bydd ffenestri o ddeunyddiau anhraddodiadol sy'n efelychu'r dyluniad gwreiddiol yn cael eu hystyried yn ffafriol, yn amodol ar gytuno ar y fanyleb fanwl.

## Drysau

8.20 Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a gwydro hefyd yn berthnasol i ddrysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw ac atgyweirio drysau pren traddodiadol. Pan fo angen, dylai drysau newydd ddilyn arddull y drws gwreiddiol os yw'n hysbys, neu dylai gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol, ar y cyfan, yn fwy amrywiol na ffenestri, mae rhai egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Nid oedd drysau ffrynt wedi'u gwydro fel arfer, pan oedd ganddynt ffenestri linter uwchlaw, er bod gan eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd diweddarach wydr barugog a/neu addurnedig yn lle'r paneli uchaf. Rhaid cadw, atgyweirio a chynnal a chadw ffenestri linter, casinau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae cynllun ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â chynllun ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi handlenni lifer allanol.

## Portshys a chanopïau

8.21 Dylai portshys a chanopïau adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopïau gwastad, neu gyda bracedi neu doeau ar oledd.

## Mynediad i bobl anabl

8.22 Mae angen darparu mynediad i bobl anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Mae bob amser yn bwysig sicrhau y caiff y rheoliadau a'r canllawiau ategol eu dehongli'n gywir ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r math hwn, dylid gwneud hynny mewn modd sensitif a gan ystyried egwyddorion cyffredinol mesuriadau, cynllun, deunyddiau a chrefftwaith sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan.

## Gwaith pwyntio a gorffeniadau waliau

8.23 Mae'n well defnyddio morter calch yn hytrach na morter sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau cyfwyneb, cilannog neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r morter yn ymestyn dros y brics neu'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd i ddisodli morter calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod. Mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad llyfn - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylid gorffen rendr sment mewn lliw pastel.

## Arwyddion ar gyfer eiddo masnachol

8.24 Dylai’r llythrennau a’r dylunio graffig fod yn gymesur, yn briodol i’r cyd-destun a heb fod yn generig.

## Lliw

8.25 Mae lliw hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai rendradau fod heb eu peintio fel arfer neu mewn lliwiau pastel a dylai unrhyw bren sy’n cael ei beintio fod mewn arlliw llwydwyn gyda lliwiau cryfion yn cael eu cadw ar gyfer drysau ffrynt ac ymylon allanol ffenestri dalennog a rheiliau.



Ffigwr 38: Ffotograff yn dangos leinin allanol ffenestr godi wedi’i phaentio’n las

## Muriau terfyn a rheiliau

8.26 Mae llawer o strydoedd ac eiddo preswyl yn cadw cyrtiau muriog neu rheiliog, sy'n hanfodol i gymeriad arbennig yr ardal gadwraeth. Mae angen rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw muriau terfyn a rheiliau yn cael eu tynnu i ganiatáu parcio ac nad ydynt yn cael eu disodli'n amhriodol.

8.27 Yn gyffredinol dylid paentio gwaith haearn mewn lliwiau tywyll neu i gyd-fynd â ‘lifrai’ y tŷ. Mae’n well osgoi'r ‘du ac aur treftadaeth’ hollbresennol.

8.28 Mae gerddi ffrynt yn amwynder lleol pwysig. Maent yn cyfoethogi'r ardal gadwraeth yn weledol a gallant ddarparu draeniad cynaliadwy.

## 9 Datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth

9.1 Yn gyffredinol, pan gynigir datblygiadau a/neu estyniadau newydd, mae'n bwysig eu bod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio cadarn, yn ogystal â manylion apelgar mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Mae'n arbennig o bwysig osgoi atebion safonol pa un ai mewn cyd-destun domestig neu fasnachol. Dylai pob math o ddatblygiad newydd o fewn yr Ardal Gadwraeth:

- Gadw ac atgyfnerthu 'nodweddion unigryw lleol' a chymeriad yr ardal gadwraeth, yn cynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, ffiniau lleiniau a thriniaethau ffiniau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriad datblygiadau presennol;
- Ymateb i rythm a mynegiad penodol israniadau'r strydlun a'r adeiladau unigol o ran baeau ac agoriadau sy'n ymyrryd ar y ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen unigryw ardal gymeriad benodol yr ardal gadwraeth, trwy ddealltwriaeth wybodus o'i ffurfiau adeiladu a'i harddulliau, nodweddion a deunyddiau;
- Parchu maint a chasgliad adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol nad yw datblygiad newydd yn anghyson â'r adeiladau presennol oherwydd ei uchder, lefelau llawr, maint ffenestri a drysau, casgliadau cyffredinol a thoeau;
- Cynnal golygfeydd a fistâu allweddol i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth; a
- Lle bo modd, lleihau effaith weledol cerbydau sydd wedi'u parcio (yn cynnwys tagfeydd tymhorol) a'r llefydd parcio a ddarperir ar y strydlun a gosodiad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

9.2 Lle y caiff datblygiadau newydd eu cynnig ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw'r ardal gadwraeth, yn hytrach nag ynddi, bydd cyn bwysiced cymryd gofal ac ystyried effaith y cynllun arfaethedig ar osodiad yr ardal gadwraeth. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw penodol i'r canlynol:

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn yr un maint, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu nodweddion pensaernïol nodedig y cyd-destun uniongyrchol;
- Ystyried effaith datblygiadau newydd ar olygfeydd a fistâu allweddol;

9.3 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'I diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am rai mathau o ddatblygiad
gynnwys datganiad dylunio a mynediad. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddatblygiadau mawr, ac mewn perthynas â datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth, datblygiadau ar gyfer un neu fwy o anheddau neu ar gyfer darparu adeiladau ag arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr neu fwy. Mae canllawiau manwl pellach ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad i'w gweld yn nogfen Llywodraeth Cymru/Comisiwn Dylunio Cymru Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut.

9.4 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i rai ceisiadau (Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth)

gynnwys Datganiad Effaith ar Dreftadaeth (HIS). Nod hyn yw sicrhau bod arwyddocâd yr ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion. Mae'r HIS yn cael ei lywio gan y broses o gynnal Asesiad Effaith ar Dreftadaeth (HIA), sydd â'r nod o gynorthwyo gyda dylunio datblygiad priodol trwy asesu'r effaith ar arwyddocâd. Darperir canllawiau manwl pellach ar y broses HIA yng nghanllaw arfer gorau CADW - Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru.

9.5 Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gynllunio warchod olion archaeolegol a'u lleoliadau, ac mae hynny'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio (paragraff 6.1.23). Mae hynny'n berthnasol ar gyfer henebion cofrestredig, henebion nad ydynt wedi'u dynodi ac olion archaeolegol eraill. Caiff cofnodion archaeolegol eu cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhanbarthol a gynhelir gan Heneb. Heneb ydy'r ymddiriedolaeth genedlaethol ar gyfer archaeloeg Cymru ac fe'i ffurfiwyd yn 2024 drwy uno pedair ymddiriedolaeth archaeoleg ranbarthol Cymru, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed gynt. Mae Heneb yn ymgynghorai allweddol ac yn darparu canllawiau arbenigol ynglŷn â chynllunio a rheoli treftadaeth.

9.6. Mae Polisi Cenedlaethol yn datgan "pan fydd datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar olion archaeolegol o bwys cenedlaethol a'u lleoliadau, dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn ffisegol yn y fan a'r lle. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd cynllunio os bydd datblygiad yn cael effaith andwyol ar heneb gofrestredig (neu safle archaeolegol y dangoswyd ei fod o bwys cenedlaethol) neu'n cael effaith niweidiol amlwg ac annerbyniol ar ei leoliad" (PCC, paragraff 6.1.24). Mae angen hefyd i geisiadau cynllunio fod yn gydnaws â'r polisïau a fabwysiadwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol 2, sydd yn cynnwys: Polisi 8 'Nodweddion Arbennig' sydd yn cydnabod yr amgylchedd hanesyddol, a Pholisi 14 'Gwarchod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'. Mae cyfrifoldeb ar y datblygwr dros ystyried effaith eu cynnig ar archaeoleg. Argymhellir cynnal trafodaethau cynnar ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heneb er mwyn asesu a dod i ddeall effaith y cynnig ar arwyddocâd yr olion archaeolegol.

## Dymchwel

9.7 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeilad gyda chyfanswm cynnwys ciwbig sy'n fwy na 115 metr ciwbig ac i ddymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n fwy nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu fwy na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth.

9.8 Mae dymchwel adeilad rhestredig (neu unrhyw ran ohono) heb gydsyniad adeilad rhestredig yn drosedd.

## Dysglau Lloeren ac Antenau.

9.9 Ni chaniateir gosodiadau o'r fath os ydynt yn gorwedd ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu priffordd neu sy'n weladwy o briffordd. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys darparu dysglau/antenau mewn lleoliadau o'r fath yn cael eu

gwrthwynebu.

## Safonau Dylunio Priffyrdd

9.10 Mae'r rhain yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth a sensitifrwydd dylunio mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Cymuned i wneud y defnydd gorau o safonau dylunio, i fod yn hyblyg lle bo hynny'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol lle mae adnoddau ariannol yn caniatáu. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau.

## Tir y Cyhoedd

9.11 Er bod cadwraeth a gwella eiddo preifat yn yr ardal gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (polion, ceblau, arwyddion, meinciau, biniau, goleuadau ac ati) yn cael effaith sylweddol ar rinweddau arbennig yr ardal. Wrth weithio gyda'r asiantaethau perthnasol, tynnir sylw at rinweddau arbennig yr ardal gadwraeth wrth ddarparu seilwaith priodol.

## Ardaloedd Agored Hanfodol

9.12 Amlygir sawl ardal felly yn yr arfarniad, gan gynnwys gerddi bach preifat a mannau cyhoeddus Mae'r lleoedd rhwng adeiladau yn hanfodol i'w lleoliad, yn ogystal ag i les y cyhoedd. Mae'r cyfle i ddatblygu yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig ar y cyfan a bydd yn cael ei wrthsefyll oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae rhai ardaloedd yn cynnig cyfle i wella.

## Coed a gwrychoedd

9.13 Mae gan awdurdodau cynllunio y pŵer i amddiffyn coed, gwrychoedd a choetiroedd trwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

9.14 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

## Rheoli a Gorfodi

9.15 Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio presennol i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau gwaith brys a

hysbysiadau atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau heb eu rhestru. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu ar eiddo preswyl, gyda rhai cyfyngiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth.

9.16 Trwy ddefnyddio ‘Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2)’, gellir cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir ymhellach, ar gyfer datblygiadau preswyl. Nid oes Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) wedi’i osod a hyn o bryd ar gyfer Cei Cresswell.

9.17 Arolygir yr Ardal Gadwraeth bob tair blynedd i sefydlu a oes bygythiad gwirioneddol a phenodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth, a oes angen gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar draws yr Ardal Gadwraeth gyfan, a pha mor effeithiol yw'r darpariaethau’r ddogfen hon.

## Atodiad A - Cyd-destun y Polisi

Daeth **Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023** a'r gyfres o ddeddfwriaeth eilradd gefnogol ar waith yn llawn ar 4 Tachwedd 2024. Roedd y gyfraith gyfunol hon ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynnwys y fframwaith deddfwriaethol a gynhwyswyd yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 nad ydynt bellach yn berthnasol yng Nghymru. Cafodd deddfiadau o Ddeddfau eraill hefyd eu cyfuno o fewn y Ddeddf newydd.
Y gyfres o reoliadau cefnogol i Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ar hyn o bryd yw:
**Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partner) (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Chwyddiant) (Cymru) 2024**
**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partner) (Cymru) 2024**

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu disgrifio o dan adran 158 fel: "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol hanesyddol y mae eu cymeriad a'u hymddangosiad yn ddymunol i'w gwarchod neu fwyhau".
Mae Adran 158 y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio nodi'r ardaloedd hyn, ac yn unol ag Adran 159 y Ddeddf, llunio a chyhoeddi cynigion o dro i dro ar gyfer gwarchod a gwella'r ardaloedd hyn. Mae Adran 160 y Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth, sef "wrth gyflawni swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, rhaid i unigolyn roi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno."
Mae adran 161 y Ddeddf yn rheoli dymchweliad Ardaloedd Cadwraeth drwy ei gwneud hi'n ofynnol i gael Caniatâd Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio ar gyfer dymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ddibynnol ar rai eithriadau yn cael eu gwneud o dan yr adran. Nid yw'r gofyn hwn yn berthnasol i adeiladau rhestredig, sydd, yn lle hynny yn cael eu delio â nhw o dan adran 88, ac ar gyfer Henebion Rhestredig cyfeiriwch at Adran 11.

Mae'r Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Chwyddiant) (Cymru) 2024 yn cynnwys mesurau ar gyfer rheoli newid mewn ffordd bositif ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, megis ei gwneud hi'n ofynnol i bob cais am Ganiatâd Cynllunio Adeilad Rhestredig ac am Ganiatâd Ardal Gadwraeth gael eu cyflwyno gyda Datganiadau Traweffaith Treftadaeth.

Adran 76 o Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Y mae hefyd yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd Gofnod Hanesyddol Amgylcheddol (CAH) a'i gadw'n gyfredol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (12fed Argraffiad) yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol ac sy'n cydnabod yr angen am i'r system gynllunio amddiffyn, gwarchod a gwneud yn fawr o asedau hanesyddol, gan gynnwys ystyried eu lleoliadau.

Mae Pennod 6, ‘Llefydd Nodedig a Naturiol’, yn egluro sut mae angen i’r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i amddiffyn, gwarchod, hyrwyddo a gwella’r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer lles cyffredinol cenedlaethau presennol a chenedlaethau’r dyfodol. Mae hefyd yn nodi’r polisïau cynllunio ar gyfer rheolaeth gynaliadwy categorïau penodol o asedau hanesyddol. Pwysleisir yr angen am i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o draweffaith cynnig ar bwysigrwydd ased hanesyddol. Mae’n egluro bod amddiffyn, gwarchod a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol ... wrth ddylunio cynigion newydd.

Amcanion Llywodraeth Cymru o safbwynt Ardaloedd Cadwraeth yw gwarchod neu wella eu cymeriad a’u hymddangosiad, tra ar yr un pryd eu helpu i barhau i fod yn llawn bywyd ac yn ffyniannus. Mae’n cyfeirio at ‘y rhagdybiaeth gyffredinol o blaid gwarchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardaloedd cadwraeth neu eu lleoliadau’ ac mae’n gosod ‘rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau,
gan gynnwys hysbysebion, a all niweidio cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth neu ei leoliad i lefel annerbyniol...’. Mae’r ragdybiaeth hon yn berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae datblygiad yn ddymunol ar sail diddordebau’r cyhoedd. Mae PPW hefyd yn egluro y gall Gwerthusiadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli gynorthwyo gyda ffwythiannau datblygu rheoli ac y gall penderfyniadau ynghylch dyluniad sy’n berthnasol i gymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o’r safle a’r cyd-destun.

Mae **Nodyn Cynghori Technegol (TAN) 24** yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol manwl pellach sy’n berthnasol i bwnc yr amgylchedd hanesyddol, yn arbennig felly, sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol drwy’r broses gynllunio. Mae’r adran hon ar Ardaloedd Cadwraeth yn ymdrin ag agweddau sy’n cynnwys eu dynodiad a’u hadolygiad, Gwerthusiadau Cymeriad Ardal Gadwraeth, Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth, Caniatâd ar gyfer Ardal Gadwraeth, Rheoli Hysbysebu, Coed, Gorfodi a Gwerthusiadau. Mae diffinio cymeriad pob ardal gadwraeth a nodi polisïau ar gyfer cadwraeth a gwelliant drwy Werthusiadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli, yn y drefn honno, yn cael eu gweld fel ffyrdd o ddarparu sail fwy cadarn ar gyfer polisïau cynllun datblygu llywodraeth leol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae hyn wrthi’n cael ei adolygu a bydd yn cael ei ail-gyhoeddi i fod yn gydnaws â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

**Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12** yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol sy’n berthnasol i ddyluniad ac mae wedi’i fwriadu ar gyfer hwyluso dyluniad a chynaliadwyedd da drwy’r system gynllunio. Mae’n nodi’r buddion o ddefnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad fel adnoddau cyfathrebu i amlinellu sut mae dyluniad y cynnig datblygiad wedi ei ystyried o’r dechrau’n deg a sut mae amcanion dylunio da wedi bod yn sail iddo. O safbwynt yr amgylchedd hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth, yn arbennig, mae’n egluro y bydd mwy o angen o ran cyfarwyddyd a chyngor gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch sut y gellir cynnwys datblygiad newydd a rheoli newid mewn ardaloedd o gymeriad arbennig.

Mae CADW wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau arfer gorau er mwyn cefnogi’r newidiadau i ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf perthnasol o blith y rhain yw **Rheoli Ardaloedd Cadwraeth** yng Nghymru, sydd â’r

bwriad o sicrhau agwedd gyson tuag at ddeddfwriaeth, gwerthuso a rheoli Ardaloedd Cadwraeth. O safbwynt gwerthusiadau, maent yn cael eu gweld fel adnoddau hanfodol ar gyfer rheoli ardaloedd presennol mewn ffordd bositif. Mae'n egluro eu pwrpas, y potensial ar gyfer gweithio gyda chymunedau lleol, cyrff trydydd sector ac ymddiriedolaethau archeolegol, cofnodi adeiladau ac elfennau eraill, ffynonellau gwybodaeth, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ynghylch cynnwys. Mae canllawiau arfer da arall ar faterion perthnasol yn cynnwys **Rheoli Cymeriad Hanesyddol yng Nghymru**, **Asesu Traweffaith Treftadaeth yng Nghymru a Nodi Asedau Hanesyddol yng Nghymru.** Mae CADW hefyd wedi cyhoeddi **Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy o'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru** (Egwyddorion Cadwraeth) yn 2011. Bydd hyn yn cael ei ddiwygio i fod yn gydnaws â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

## Cyfeiriadau:

CADW, 2017, Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru
CADW, 2011, Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy o’r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru (Egwyddorion Cadwraeth).
CADW, 2017, Asesiad Traweffaith Treftadaeth yng Nghymru
CADW, 2017, Rheoli Cymeriad Hanesyddol yng Nghymru
CADW, 2017, Nodi Asedau Hanesyddol yng Nghymru

Connop-Price M.R. 2004, Pembrokeshire the Forgotten Coalfield

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (Heneb) Cymeriadu Tirwedd Hanesyddol - Ardal Aberdaugleddau
Lloyd Thomas, Orbach Julian, Scourfield Robert, 2004, ‘The Buildings of Wales’, Pevsner

Asesiad Cymeriad Tirwedd LCA 28 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Scourfield, R. a Johnson, K. 2007. 'Down the Quay: An illustrated history of Cresswell Quay'. Gomer, Llandysul.

Llywodraeth Cymru, Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru 2024 (12fed Argraffiad)
Llywodraeth Cymru 2017, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24
Llywodraeth Cymru 2016, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12
Llywodraeth Cymru/Comisiwn Dylunio ar gyfer Cymru 2017, Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut.

### Deddfwriaeth

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016
Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol) 1995 (fel y’i diwygiwyd)
Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024
Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024
Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partner) (Cymru) 2024
Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Chwyddiant) (Cymru) 2024
Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partner) (Cymru) 2024